
# Llwybr Ysgrifennu Archaeoleg

national museum cardiff
amgueddfa genedlaethol caerdydd

**Croeso i'r llwybr ysgrifennu. Bydd y llwybr yn mynd â chi trwy ran o'r arddangosfa Archaeoleg (Oes y Cerrig i'r Oes Haearn) a'r gobaith yw y bydd yn eich ysbrydoli a'ch sbarduno chi i ysgrifennu. Dylai gymryd tuag awr i chi gwblhau'r llwybr.**


Dechreuwch y daith yn Oriel Oes y Cerrig ar y llawr cyntaf. Yn gyntaf, edrychwch ar Gês 1, sy'n cynnwys pethau a ffeindiwyd yn Ogof Pontnewydd.

Cofiwch fynd â'r ffeil nôl i Oriel Glanely ar ôl gorffen, er mwyn i bobl eraill ei defnyddio. Cewch lawrlwytho eich copi eich hun am ddim o www.amgueddfacymru.ac.uk/dysgu, o dan yr adran Addysg Oedolion.




national museum wales
amgueddfa cymru


Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly
Government


Canol Oes y Cerrig
Hen Oes y Cerrig
Oes y Cerrig Diweddar
Yr Oes Efydd Cynnar
Yr Oes Efydd Diweddar
Oes Efydd-Haearn
Yr Oes Haearn
1
2
3
4
5
6
7
8
Rhufeinig
Arian a Medalau

# Cês 1: Ogof Pontnewydd

Mae Ogof Pontnewydd yn Sir Ddinbych yn enwog am yr olion Neanderthalaidd cynnar a ffeindiwyd yno. Dyma'r olion cynharaf y gwyddom amdanynt yn Ynysoedd Prydain.





Yng Nghês 1 fe welwch chi fwyeill llaw carreg, dannedd pobl a ffragmentau o esgyrn chwarter miliwn o flynyddoedd oed.

Roedd y dannedd yn y cês yma'n perthyn i ddau berson, oedolyn a phlentyn tua 8 oed.



- **Sut ydych chi'n teimlo wrth edrych ar ddant sugno plentyn o amser maith yn ôl? Beth yw'r peth cyntaf sy'n dod i'ch meddwl? Tylwyth teg? Dannedd tolciog? Ysgrifennwch yr holl ddelweddau sy'n dod i'r meddwl a'ch ymateb.**

Mae darganfod offer carreg, esgyrn anifeiliaid ag olion torri arnynt ynghyd â dannedd a darnau o esgyrn pobl yn dangos bod pobl wedi defnyddio Ogof Pontnewydd tua chwarter miliwn o flynyddoedd yn ôl. Roedd helwyr-gasglwyr cynnar Oes y Cerrig yn gwneud offer oedd yn cynnwys bwyeill llaw, crafelli a phennau gwaywffyn syml o rai mathau o gerrig lleol, ac yn enwedig craig folcanig a gludwyd o Eryri ar yr ia. Mae'n bosibl bod eu hysglyfaeth yn cynnwys ceffylau, rhinoserosod, hyddod ac ewigod. Mae crafiadau ar yr esgyrn, sy'n dangos bod yr anifeiliaid wedi cael eu lladd am gig.



*Nid atgofion yw'r olion hynaf. Mae marciau ar garreg yn olrhain llaw. Mae ocr ar esgyrn yn olrhain bywyd rhywun. Ond ychydig o'r rhain sydd... Cyn diwedd yr ia roedd dynion a menywod yn hela'r tir. Rhwng estyniad yr ia, roedd milenia hir cynnes, lle tyfodd fforestydd ar y tir uchel, a chyn yr estyniad olaf, roedd glaswelltiroedd helaeth lle'r oedd ceirw a bual a cheffylau'n hela...*

*People of the Black Mountains* Raymond Williams (1989)


- **Dychmygwch rywun yn dod i mewn o strydoedd prysur y ddinas i edrych ar offer cerrig ac esgyrn Ogof Pontnewydd. Wrth ysgrifennu, defnyddiwch lais y person hwnnw gan ddefnyddio iaith gyfoes neu fratiaith. Beth mae'r pethau hyn yn ei olygu i'ch cymeriad chi o'r 21ain ganrif. Ydyn nhw'n sbarduno rap, blog neu gân?**

Wrth ymyl Cês 1, cewch ddarllen am ‘Y Cartref Cyntaf yng Nghymru’. Gallech chi alw stori arall yn:

“

Byd Coll Dyffryn Elwy

*Dyma ni yn y 1920au. Daw ffair deithiol i Lanelwy. Yn anffodus, mae un o anifeiliaid y sioe, crocodeil (neu aligator?) yn marw. Dau fachgen lleol sy’n cael y dasg o gael gwared ar y corff. Beth wnaethon nhw? Yn ôl un o bobl Cefnmeiriadog, oedd yn ei wythdegau pan rannodd y stori rhyw ugain mlynedd yn ôl, fe welson nhw eu cyfle i ddefnyddio’r bwystfil i wneud arian.*



*Mae Ogofâu’r Cefn wedi bod yn atyniad i ymwelwyr ers degawdau, a phenderfynodd ein mentrwyr i hyrwyddo’r syniad o ‘Fyd Coll Dyffryn Elwy’ trwy osod y creadur marw ar un o lwybrau’r ogof. Roedd y bobl leol a’r ymwelwyr fel ei gilydd yn hapus i dalu i weld, a rhyfeddu at dystiolaeth mor dda o fywyd Oes y Cerrig. Dim ond pan ddechreuodd y creadur bydru y daeth y twyll i’r amlwg, a daeth y profiad yn rhy fyw o lawer ... dyna phryd y penderfynodd y bois busnes yma i ail-frandio’u hunain fel jocars.*

”

yn null *Cofio’r Cefn* (1989 pp. 49-50) Kenneth Brassil, Amgueddfa Cymru

- **Ysgrifennwch erthygl papur newydd, gan ddyfynnu un o’r bechgyn. Ceisiwch ddynwared ei dôn a defnyddio’r geiriau fyddai e wedi eu defnyddio i esbonio pam roddodd e’r crocodeil yn yr ogof.**

# Cês 2: Bryn Celli Ddu

Nawr edrychwch y tu ôl i chi ar Gês 2 sy'n cynnwys model ar raddfa o domen gladdu grwn Bryn Celli Ddu, Ynys Môn. Lledaenodd syniadau cyffredin am arferion claddu o gwmpas ardaloedd o Ewrop oedd yn ffinio â'r Iwerydd 5,500 o flynyddoedd yn ôl. Roedd hyn yn cysylltu Llydaw, Cernyw, Cymru, de'r Alban ac Iwerddon, ac mae'n weladwy hyd heddiw ar ffurf olion tomenni claddu crwn. Beth sy'n eu gwneud nhw'n arbennig? Dyma esboniad archaeolegydd:




> *Adeiladwyd Bryn Celli Ddu tua 3000 cc pan oedd Cymru'n dal yn Oes y Cerrig. Mae olion y bobl adeiladodd y domen wedi eu colli bron yn llwyr; mae'r ychydig sydd ôl o'u bywydau'n gaeth mewn fflintiau sydd wedi mynd yn ddi-fin, ac mewn darnau mân o lestri. Ond mae aliniad y domen yn dangos nad oedd symlrwydd eu hoffer yn cyfyngu dim ar eu dychymyg na'u sgiliau technegol wrth adeiladu arsyllfa o gerrig sy'n dal i olrhain amser, 250 o genedlaethau'n ddiweddarach.*
>
> *Mae llwybr y domen, sy'n edrych fel rhywbeth a adeiladwyd dros dro, yn edrych allan ar orwel di-nod. Gallai'r adeiladwyr fod wedi cyflawni'r un peth trwy symud y domen ychydig raddau i'r chwith neu i'r dde; dim ond gyda'r wawr adeg heuldro haf y daw'r aliniad bwriadol i'r amlwg. Bryd hynny, mae pelydryn o haul yn mynd i mewn i'r llwybr 5 metr o hyd gan ei llenwi â golau, a goleuo wal gefn y siambr fel pe bai'n anadlu bywyd newydd i'r beddrod.*

Dr Steve Burrow, Amgueddfa Cymru

- **Ysgrifennwch gerdd (awdl) neu ddarn o ryddiaith i gyfarch yr haul adeg heuldro haf, er mwyn dathlu pwysigrwydd y diwrnod arbennig yma.**

# Cês 3: Bryn Celli Ddu


Nawr edrychwch ar y ddwy ochr i'r maen hir patrymog yng Nghês 3. Ffeindiwyd y maen yn gorwedd â'i ben i lawr y tu ôl i siambr ganolog Bryn Celli Ddu. Mae'n rhaid ei fod e wedi cael ei gladdu cyn i'r gwaith o adeiladu'r domen ddechrau. Mae archaeolegwyr yn ansicr a gafodd y maen ei gladdu i gysegru'r safle, neu i guddio'r maen. Edrychwch ar y patrymau ar y maen. Beth ydyn nhw'n ei gynrychioli? Mae'r ffrîs wedi ei oleuo uwch eich pen, o'r enw *Defod mewn Bedd Cyntedd, 3000 CC* yn dangos lleoliad meini o'r fath mewn beddrod arall ym Môn a'u swyddogaeth bosibl fel rhan o'r ddefod gladdu.



- **Ceisiwch esbonio arwyddocâd y marciau ar y maen mewn cerdd neu ddarn o ryddiaith. Ydyn nhw'n cynrychioli afon, drysfa neu lwybr i'w ddilyn i'r byd nesaf?**

# Barclodiad y Gawres

Edrychwch eto ar y llun o'r enw *Defod mewn Bedd Cyntedd, 3000 CC* sy'n dangos bedd cyntedd Barclodiad y Gawres, Ynys Môn, gyda'i brif siambr a thair siambr ochr lle câi'r meirw eu claddu. Yng nghanol y brif siambr roedd tân a fyddai'n cael ei gynnau i oleuo'r muriau yn ystod defodau. Er syndod i'r archaeolegwyr oedd yn cloddio'r safle, ffeindiwyd cymysgedd o esgyrn ymlusgiaid, pysgod ac amffibiaid yn yr aelwyd.



*Fillet of a fenny snake,*
*In the cauldron boil and bake;*
*Eye of newt and toe of frog,*
*Wool of bat and tongue of dog,*
*Adder's fork and blind-worm's sting,*
*Lizard's leg and howlet's wing,*
*For a charm of powerful trouble,*
*Like a hell-broth boil and bubble.*

*Macbeth* William Shakespeare

- **Ysgrifennwch gerdd neu ddarn byr o ryddiaith, yn awgrymu pam roedd yr esgyrn yn olion y tân. Beth oedd ystyr pob creadur? Oedden nhw'n ymgorffori ysbrydion arbennig? Oedd pwerau arbennig ganddyn nhw? Pa argoelion oedd yn gysylltiedig â nhw? Ofergoelion? Hud?**

# Cês 4: Llyn Fawr

Mae'r oriel nesaf yn dangos darnau o'r Oes Efydd a'r Oes Haearn. Mae Cês 4 ar ben yr oriel yn dangos gwrthrychau a dynnwyd o Lyn Fawr ger Rhigos, Rhondda Cynon Taf, ym 1911. Ffeindiwyd y celc, sy'n cynnwys bwyeill efydd, gaingiau cau, rasel, harneisiau ceffyl, cleddyf haearn a dau bair neu grochan enfawr, yn ystod gwaith i wneud y llyn yn fwy dwfn er mwyn creu cronfa ddŵr. Y cryman haearn yw un o'r darnau haearn cynharaf i gael ei wneud ym Mhrydain, ac mae'n dyddio o tua 800 i 600 CC.



Mae *Preiddiau Annwn* Taliesin (o'r 6ed ganrif OC), yn disgrifio llestr sanctaidd. Mae criw o gyfrinwyr dysgedig yn mynd i Annwn i chwilio am 'Bair Pwyll'. Roedd gan y pair bwerau hud oedd yn cynnwys pwerau lleferydd, dihysbyddyd, ysbrydoliaeth ac adfywio. Mae diferion o hylif o'r pair yn rhoi'r gallu i bobl weld y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, ac i newid siâp:

*…Bum yn leisiad glas,*
*Bum yn gi, yn hydd, yn iwrch ar y mynydd.*
*Bum yn gyff, yn rhaw yn fwyell mewn llaw*
*Yn stalwyn, yn darw, yn fwch …*
*Bum yn ronyn o wenith yn tyfu ar fryn*
*Ac fe'm cynaeafwyd a'm dodi mewn ffwrn i grasu*
*Dyrthiais i'r llawr*
*A chymerodd iâr gribog fi a'm llyncu.*
*Am naw noson bues yn ei chrombil*
*Bum yn farw, Bum yn fyw.*
*Taliesin wyf fi…*

Dienw (13eg ganrif)


- **Disgrifiwch ba siâp fyddech chi'n ei ddewis ar ôl cael diferyn o'r pair, a beth fyddech chi'n ei wneud gyda'ch pwerau newydd?**

# Cês 5: Celc o’r Oes Efydd

Nawr croeswch Oriel yr Oes Efydd-Haearn i Gês 5. Mae’n cynnwys pethau aur o’r Oes Efydd, gan gynnwys y celc o bedair torch bar aur o Lanwrthwl, Powys.

“*Dau weithiwr fferm, oedd yn paratoi cae pori garw o’r enw Banc Cae-gwyllt, ar Fferm y Talwrn i’w amaethu, ffeindiodd y pedair torch yn Chwefror 1954. ‘Roedd Mr Smith yn codi cerrig mawr o flaen yr aradr, a ffeindiodd un oedd ar ei ochr ac yn pwyso tua 2 ganpwys. Galwodd ar Mr Davies i’w helpu i godi’r garreg, a ffeindiodd ei fod yn gorffwys ar bentwr o gerrig mân. O dan un o’r cerrig hyn ffeindiodd dwy dorch o feintiau gwahanol, ac o dan y rhain roedd carreg fach arall gyda dwy dorch arall eto odani, y ddwy yma o wahanol feintiau hefyd. Ni roddodd y ddau weithiwr rhyw lawer o bwys i’r darganfyddiad i gychwyn: fel y dywedodd un ohonynt yng Nghwest y Crwner i’r Celc, roedd y torchau brwnt yn edrych "fel hen sbringiau gwely". Ond cytunodd y ddau i rannu’r pedwar peth od rhyngddyn nhw, a dim ond trwy onestrwydd Mr Smith wrth ddangos ei ddwy dorch i’w gyflogwr y daeth ei ddarganfyddiad i’r goleuni...’*”

*The Late Bronze Age in Wales: Some New Discoveries and New Interpretations*
H. N. Savory (1958)





- **Dramateiddiwch stori’r darganfyddiad o safbwynt Mr Smith. Esboniwch pam benderfynodd e roi’r torchau i’r awdurdodau. Sut roedd e’n teimlo wrth sylweddoli mai aur oedden nhw?**

# Cesys 6 a 7: Llyn Cerrig Bach

Nawr cerddwch trwy Oriel yr Oes Haearn, heibio i'r gwehydd ac at Gês 6 sy'n dangos pethau o gelc Llyn Cerrig Bach sy'n dyddio o 200CC-100OC. (Gallwch chi weld rhagor o bethau o Lyn Cerrig Bach yng Nghês 7 ar ochr arall yr oriel, yn arddangosfa'r 'Rhyfelwr Celtaidd'.)

"*Ym 1942 roedd angen mawn i baratoi'r llain lanio yng Ngorsaf y Llu Awyr yn y Fali, Ynys Môn. Grŵp o gorsydd yn Llyn Cerrig Bach oedd y ffynhonnell amlwg. Yn ystod y gwaith i godi'r mawn, aeth cadwyn haearn yn sownd yn nannedd yr oged, ac ar ôl ei throsglwyddo i'r tractor, ffeindiwyd ei bod yn ddefnyddiol i dynnu loriäu oedd wedi mynd yn sownd nôl i dir cadarn. Tynnwyd sylw Mr J. A. Jones, Peiriannydd Preswyl y Weinyddiaeth Cludiant Rhyfel, at y darganfyddiad, a ffeindiodd e a'r gweithwyr oedd yn wrthi ar y safle ddarnau metel eraill, ynghyd ag esgyrn anifeiliaid, ar y safle.*"

*A Find of the Early Iron Age from Llyn Cerrig Bach, Anglesey*
Sir Cyril Fox (1946)



Er gwaethaf cyfrinachedd y rhyfel, cyhoeddodd The Times adroddiad byr ar y darganfyddiadau ym 1944. Roedd Jacquetta Hawkes yn teimlo bod y plac efydd crwn...



*... athrylith addurnol ar ei gorau. Mae ganddo anghymesuredd sy'n graff o gytbwys ac mae'n llwyddo i wneud matrics lle mor bwerus o effeithiol â'r dyluniad ei hun. Mae'n hollol haniaethol, ond mae rhyw symudiad hynod yn y peth; yn syml hyd bwynt llymder, ond mae wynebau crwn y gwaith repoussé yn rhoi rhyw nwydusrwydd iddo.*

**Ruins**

*And this was a civilization*
*That came to nothing - he spurned with his toe*
*The slave-coloured dust. We breathed it in*
*Thankfully, oxygen to our culture.*


*Somebody found a curved bone*
*In the ruins. A king's probably,*
*He said. Imperfect courtiers*
*We eyed it, the dropped kerchief of time.*

O *H'm* R. S. Thomas (1972)

- **Ysgrifennwch gerdd neu ddarn bach o ryddiaith am y pethau a ffeindiwyd yn Llyn Cerrig Bach. Beth ydyn nhw'n ei ddweud am wareiddiad coll?**

# Cês 8: Capel Garmon

Yn olaf, edrychwch y tu ôl i chi ar frigwn Capel Garmon yng Nghês 8. Dyma gampwaith o'r ganrif gyntaf OC. Ffeindiwyd y stondin haearn yma'n sefyll gyda dau ben anifail corniog, gan ddyn oedd yn torri ffos trwy fawn ar Fferm Carreg Goedog, Conwy ym 1852. Byddai wedi bod yn ganolbwynt i dŷ crwn o Oes yr Haearn.



Mae mwyndoddi haearn yn waith caled, hir ac yn gofyn am ddwylo medrus. Sut roedd metelegwyr cynnar yn tynnu haearn o'r mwyn? Roedden nhw'n llosgi siarcol mewn ffwrnais clai neu â leinin o glai ac yn adio mwyn haearn. Roedd angen jyst digon o garbon monocsid ar dymheredd oedd yn ddigon cynnes i droi mwyn haearn yn haearn metelaidd. Hyd yn oed bryd hynny, doedd y globylau bychain bach o fetel ddim yn dawdd. Byddai'n cynhyrchu 'haearn pwdl crai', sef mas meddal fel sbwng o haearn oedd yn cynnwys amhureddau o'r enw 'slag'.

Gofannu oedd y cam nesaf. Byddai'r gof yn cynhesu ac yn morthwylio'r haearn pwdl i gael gwared ar y slag a chreu un bloc o fetel o haearn. Mae'r 'bar cyfredol' yng Nghês 6 yn enghraifft o beth fyddai'r gof yn gweithio arno ac yn ei siapio yn yr efail i greu'r darn terfynol.



Mae pelydrau-x ac arbrofion a wnaed yn ddiweddar, oedd yn cynnwys copïo'r brigwn, wedi dangos ei bod hi'n debyg iddo gymryd tair blynedd i'w wneud, o gasglu'r deunyddiau crai, i fwyndoddi'r mwynau a gorffen y darn.

- **Ysgrifennwch am droi'r garreg yn fetel, a'r bar metel yn arteffact. Ceisiwch ddychmygu'r gwres yn y ffwrnais, sŵn y morthwylio a'r statws a roddwyd i'r bobl â'r wybodaeth a'r sgil i wneud y gwaith yma.**

Rydyn ni'n gobeithio'n fawr eich bod chi wedi mwynhau cymryd rhan yn y llwybr ysgrifennu yma ac yn edrych ymlaen at gael darllen eich gwaith. A fyddech cystal â llenwi'r ffurflen adborth yma.

***Diolchiadau*** *Am eu cyngor a'u cymorth, diolch i: Ceri Black, Kenneth Brassil, Steve Burrow, Evan Chapman, Tony Daly, Elizabeth Forrest, Adam Gwilt, Dafydd James ac Elizabeth Walker yn Amgueddfa Cymru. Diolch hefyd i Joek Roex, John Pikoulis a Shelagh Weeks ym Mhrifysgol Caerdydd.*

# Gwerthuso

Pa rannau o'r llwybr yma oedd:

- yn ddiddorol iawn

- yn anniddorol

- rhy anodd/fanwl

- ddim yn ddigon ymestynnol

Gobeithio y bydd modd i awduron gael adborth ar eu gwaith ysgrifennu cyn bo hir ac y gellir cynnwys rhywfaint o waith mewn arddangosfa neu recordiad sain o waith ysgrifennu wedi ei ysbrydoli gan yr Amgueddfa. Os oes diddordeb gennych chi yn y posibiliadau hyn, e-bostiwch eich gwaith â'ch manylion cyswllt at ysgrifennu@amgueddfacymru.ac.uk neu rhowch nhw i staff y dderbynfa yn Oriel Glanely.

Susan Morgan 2005